

DATGANIAD I'R WASG

Cyhoeddir gan Ynni Lleol CIC

I'w ryddhau ar 13 Mai 2022

Cyllid y Loteri Genedlaethol yn cefnogi chwyldro cymunedol tawel Ynni Lleol yn y system drydan

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cyllidwr mwyaf gweithgarwch cymunedol yn y DU, yn cefnogi Ynni Lleol dros y tair blynedd nesaf. Mae Ynni Lleol yn galluogi cwsmeriaid cymunedol i greu marchnad leol ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy cyfagos. Wrth i bawb geisio datgarboneiddio a diogelu eu cymunedau rhag costau ynni cynyddol, bydd y fenter hon yn rhoi'r cymorth brys sydd ei angen ar aelwydydd.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Ynni Lleol CIC wedi gwneud cais llwyddiannus ar gyfer grant £400,000 i ehangu a lansio'r model y mae wedi'i greu yng Nghymru ledled Prydain. Mae model Ynni Lleol yn gwneud pŵer yn rhywbeth sydd wir yn lleol, gan fuddio economi'r gymuned a datgarboneiddio'r system bŵer.

Fel arfer, mae generaduron adnewyddadwy (gan gynnwys rhai y mae cynlluniau cymunedol yn berchen arnyn nhw) yn gwerthu eu trydan i gwmni pŵer am bris isel. Yn y cyfamser, mae aelwydydd cyfagos yn talu prisiau safonol i'w ddefnyddio. Mewn clwb Ynni Lleol, mae aelodau'n defnyddio pŵer o generaduron lleol, gwyrdd pan fyddan nhw ar waith. Maen nhw'n talu pris is, o gymharu â phris domestig, tra bod y generadur yn cael incwm gwell. Caiff aelodau'r clwb eu rhybuddio pan fo digon o bŵer gwyrdd fel y gallan nhw optimeiddio eu defnydd o drydan carbon-isel.

Mae Ynni Lleol CIC yn cefnogi cymunedau i greu Clybiau Ynni eu hunain, ecosystem ynni. Caiff pob clwb ei drefnu a'i gynnal yn lleol, ond gyda'r 'ochr pennaf' yn cael ei ddarparu gan dîm Ynni Lleol CIC. Mae'r rhain felly'n cefnogi gweddill y seilwaith a'r economi gymunedol.

Ym Methesda, mae trigolion arloesol yn buddio o'r pris is pan fyddan nhw'n defnyddio eu peiriant hydro lleol. Mae Clybiau Ynni Lleol yng Nghorwen, Crughywel a Machynlleth bellach wedi ymuno â nhw, ynghyd â chlybiau solar lleol yn Llandysul a Brixton a gwynt yn Bridport. Mae'r rhain yn dangos beth allai'r cyflenwad trydan sero-carbon fod yn y dyfodol.

"Nid yw'r pŵer byth yn cael ei ddiffodd, mae'r cynhyrchiad lleol yn cael ei lenwi'n awtomatig ac yn ddi-dor gan eu cyflenwr trydan arferol pan fo angen," dywed Cyfarwyddwr Ynni Lleol, Mary Gillie. "Mae'r pŵer ychwanegol hwn wedi'i gyfrifo mewn tri phris yn ystod y dydd er mwyn annog aelodau'r clwb i'w ddefnyddio pan fydd rhataf a mwyaf gwyrdd. Mae'n annog defnyddio gwifrau trydanol lleol mewn ffordd effeithlon hefyd."

“Mae’n fanteisiol i bawb, pŵer lleol rhatach, a mwy ohono, ynghyd â llai o garbon. Yn ystod cyfnod lle mae prisiau ynni’n cynyddu, mae Ynni Lleol yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i bobl rhag ansefydlogrwydd prisiau ynni byd-eang a rheolaeth dros gostau pŵer.

“Mae wedi bod yn daith hir i gyrraedd yma. Rydyn ni’n ddiolchgar am yr amynedd y mae ein clybiau cychwynnol wedi’i ddangos. Rydyn ni nawr yn barod i fynd â’r buddion i ragor o ardaloedd a bydd hi’n wych gweithio gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar hyn.”

Dywed Amy Charnley-Parry o Ynni Lleol, “Rydyn ni’n edrych ymlaen yn arw at weithio â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a deiliaid grant eraill i helpu adeiladu a chryfhau ‘ecosystemau’ cymunedol o wahanol sefydliadau. Wrth i ni geisio cyflawni system drydan carbon-sero, y perygl yw nad yw’r buddion yn cael eu rhannu â chymunedau ac maen nhw’n teimlo fel petaen nhw’n cael eu defnyddio. Gall hyn greu drwgdeimlad ac mae’n debygol o wneud y dasg yn anoddach.”

Mae Ynni Lleol yn gweithio i ddod o hyd i gydbwysedd rhwng darparu incwm uwch i ffynonellau adnewyddadwy, dull ymarferol i aelwydydd i helpu lleihau carbon gan leihau eu biliau, ond hefyd cadw’r cymorth i gwsmeriaid a buddion cyflenwyr ynni’r drwydded genedlaethol.

Dywedodd John Rose, Cyfarwyddwr Cymru yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, “Rydyn ni’n credu bod gweithredu cymunedol yn ffordd bwerus o ymgysylltu â phobl i chwarae eu rhan yn lleol i fynd i’r afael â phroblemau amgylcheddol byd-eang, ac i amddiffyn yr hinsawdd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

“Trwy weithredu yn erbyn newid hinsawdd, rydyn ni nid yn unig yn gwneud gwelliannau amgylcheddol arwyddocaol, ond hefyd yn helpu pobl a chymunedau i ffynnu, fel mae gwaith gwych Ynni Lleol yn ei ddangos. Rydyn ni wrth ein boddau bod yr hyn y mae’r grŵp wedi’i ddechrau nawr yn gallu ehangu ymhellach a lansio mewn mwy o ardaloedd ledled Cymru a Lloegr, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.”

Mae’r drws bellach ar agor i ragor o glybiau fynd yn ‘fyw’, ac i’r model gael ei lansio ymhellach. Mae gan y model fuddion i bawb. Gall helpu datgloi llawer mwy o gynhyrchiad ynni adnewyddadwy lleol, a hynny’n gymunedol yn enwedig, trwy ddarparu incwm hirdymor. Mae’n cefnogi’r economi leol, annog pobl i ddefnyddio pŵer carbon-isel a helpu rhedeg ein system drydan yn fwy effeithlon. Mae’n gam tuag at y farchnad drydan sydd ei hangen ar bawb i gyflawni carbon-sero.

----- DIWEDD -----

Gwybodaeth bellach: www.energylocal.org.uk/cy

Cyswllt: amy@energylocal.co.uk

Lluniau: ar gael gan amy@energylocal.co.uk

Dangosfyrddau ynni ar gyfer pob clwb ar dashboard.energylocal.org.uk/?lang=cy

*Byddai rhywun ar gael i wneud cyfweiliad yn Gymraeg

*

Ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol:

Ni yw cyllidwr mwyaf gweithgarwch cymunedol yn y DU - rydym ni'n cefnogi pobl a chymunedau i lwyddo a ffynnu.

Rydym ni'n falch i ddyfarnu arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gymunedau ledled Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, ac i gydweithio'n agos â Llywodraethau i ddsbarthu grantiau a chyllid hanfodol o raglenni a mentrau Llywodraethol allweddol.

Mae ein hariannu'n cael effaith gadarnhaol ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Rydym ni'n cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar bethau sy'n bwysig, gan gynnwys ffyniant economaidd, cyflogaeth, pobl ifanc, iechyd meddwl, unigrwydd a helpu'r DU i gyrraedd Sero Net erbyn 2050.

Diolch i gefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae ein hariannu ar agor i bawb. Mae'n ffrind gennym i allu gweithio â'r grwpiau lleol lleiaf i elusennau DU-gyfan, gan alluogi pobl a chymunedau i ddod â'u huchelgeisiau yn fyw.

Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi dros £30 miliwn yr wythnos at achosion da ledled y DU. Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau yn 1994, mae £43 biliwn wedi cael ei godi at achosion da. Mae cyllid y Loteri Genedlaethol wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi dros 635,000 o brosiectau - 255 o brosiectau fesul ardal cod post.